# ROBERTS, JOHN (1806 - 1879), cerddor



**Enw:** John Roberts
**Dyddiad geni:** 1806
**Dyddiad marw:** 1879
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerddor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn Sarnau, ger y Bala. Yn fachgen llafuriai ar y ffermydd o gwmpas ei gartref. Symudodd yn ddyn ieuanc i Aberystwyth, lle y dysgodd y grefft o gerfio. Astudiodd gerddoriaeth, daeth yn gerddor da, a llafuriodd yn ddiwyd gyda cherddoriaeth y dref a'r ardaloedd cylchnol. Yn 1853 dug allan *Perorydd y Cysegr* yn cynnwys cant o donau - yn eu mysg y dôn ' Alexander,' 8.7.D., a'r flwyddyn 1824 wrthi. Ymddangosodd y dôn yn *Greal y Bedyddwyr*, 1833. Dywaid John Roberts iddo ei chyfansoddi yn 18 oed. Cyhoeddodd *Seraff Cymru* hefyd, yn cynnwys anthemau a chôrganau dan olygiaeth J. Wilks, organydd yn Aberystwyth. Yn 1855 symudodd i Aberdâr, a bu'n arwain y canu yng nghapel Bedyddwyr Penpound am flynyddoedd. Dychwelodd yn ôl i Aberystwyth yn 1873, ac yno y bu farw, 18 Tachwedd 1879. Claddwyd ef yng a nghladdfa Aberystwyth.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

*Y Cerddor*, Mehefin 1893 a Mehefin 1918

*Cymru (O.M.E.)*, 1899


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733645


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu